**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 28 TACHWEDD 2025 TRWY MS TEAMS (09:30 – 12:00)**

**Aelodau'r PLIA a oedd yn bresennol:** Andrew Blackmore (Cadeirydd Annibynnol), Kalwant Grewal (Aelod Annibynnol), Jassa Scott (Aelod Annibynnol), Dianne Bevan (Aelod), Bethan Price (Aelod), Frances Duffy (Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol)

**Cynrychiolydd Archwilio Cymru a oedd yn bresennol:** Julie Rees

**Cynrychiolwyr MIAA a oedd yn bresennol:** Gary Baines
David Burrows

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr), Tom Jenkins (Pennaeth Arolygon), David Burley (Pennaeth Busnes), Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd), David Carr (Rheolwr Cyllid)

**1. Cyfarfod rhwng Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (PLIA) a'r Archwilwyr (yn breifat)**

*1.1 Cynhaliwyd trafodaeth rhwng Aelodau'r PLIA a'r archwilwyr yn breifat heb fod swyddogion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) yn bresennol.*

**2. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

2.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3. Datganiadau Buddiannau**

3.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

**4. Cofnodion y Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Medi a 17 Hydref 2025**

4.1 Cytunwyd ar gofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Medi a 17 Hydref 2025 ac fe'u mabwysiadwyd.

**5. Materion yn Codi o Gyfarfodydd Blaenorol.**

5.1 Nododd y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o'r materion a gododd o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Medi a 17 Hydref 2025 wedi derbyn sylw.

5.2 O ran y mater a oedd yn weddill ynglŷn â hyfforddiant Diogelwch TGCh i'r aelodau, adroddwyd bod hyfforddiant Cymwysterau Cymru ar gael i aelodau CDFfC y rhoddwyd Surface Pro iddynt yn unig, ac felly ni allai gynnwys aelodau annibynnol y PLIA. O ganlyniad, roedd darparwr hyfforddiant TCGh allanol yn cael ei geisio.

5.3 O ran y mater a oedd yn weddill ynglŷn ag Yswiriant Indemniad, adroddwyd bod ymateb wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru, sef nad oedd o'r farn bod risg her gyfreithiol yn ddigon uchel i CDFfC drefnu yswiriant indemniad ac y byddai'n rheoli unrhyw her gyfreithiol yn erbyn cyrff hyd braich ar sail achosion unigol. Holodd yr aelodau a oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu asesiad risg a dadansoddiad cost a budd ynglŷn â ph'un a ddylai CDFfC drefnu yswiriant indemniad, a chadarnhawyd nad oedd wedi gwneud hynny. **Cytunwyd** y byddai'r swyddogion yn gofyn i Lywodraeth Cymru am asesiad risg a dadansoddiad cost a budd ar gyfer yswiriant indemniad CDFfC.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 11/12/25

5.4 **Cytunwyd** y byddai CDFfC yn paratoi ei asesiad risg ei hun i'w gymharu ag asesiad risg Llywodraeth Cymru.
**Gweithredu:** Prif Weithredwr/ Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31/01/26

## 6. Adroddiad Diogelwch TGCh.

6.1 Adroddwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau seiberddiogelwch ers y cyfarfod Pwyllgor diwethaf. Dywedodd Sean Gaffney fod sefyllfa seiberddiogelwch CDFfC yn dda ar hyn o bryd ac yn well o lawer na sefydliadau o faint tebyg. Roedd yr holl sicrwydd diogelwch TGCh yn ddilys o hyd, er y byddai angen i IASME Lefel 1 gael ei adnewyddu ym mis Ionawr 2026. Roedd hyfforddiant diogelwch TGCh ar gyfer staff yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, ac roedd hanner staff CDFfC wedi'i gwblhau hyd yma.

6.2 Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai profion parhad busnes TGCh yn cael eu cynnal. Adroddwyd y byddai profion parhad busnes TGCh yn cael eu cynnal ar ôl adnewyddu achrediad IASME Lefel 1 ym mis Ionawr.

## 7. Archwiliad Mewnol: Adroddiadau Archwilio 2025-26

7.1 Cyflwynodd Gary Baines Adroddiad Archwilio Mewnol MIAA ar Reolaethau Rheoli Risg Craidd CDFfC ac esboniodd y canfyddiadau allweddol i'r aelodau. Roedd yr adroddiad wedi rhoi sgôr sicrwydd risg Sylweddol i broses rheoli risg CDFfC ac wedi gwneud pum argymhelliad archwilio lefel isel/canolig a oedd i gyd wedi cael eu derbyn gan reolwyr CDFfC.

7.2 Holodd y Pwyllgor a fyddai CDFfC yn defnyddio'r canfyddiadau archwilio mewnol i lywio ei gynllunio strategol. Cadarnhawyd y byddai canfyddiadau archwilio mewnol 2025-26 yn cael eu defnyddio i gynllunio gwaith y flwyddyn i ddod, yn enwedig o ystyried y newidiadau a'r heriau a ddisgwyliwyd.

7.3 Nodwyd bod lefelau risg CDFfC yn uchel o ganlyniad i'r risg sy'n gysylltiedig â'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP), ond y byddent yn cael eu lleihau ar ôl iddo gael ei lansio ym mis Mawrth 2026.

7.4 Nododd y Pwyllgor Adroddiad Cynnydd MIAA a amlinellodd gynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn Cynllun Archwilio Mewnol 2025-26.

## 8. Cofrestr Risgiau'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol.

8.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar risgiau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Adroddwyd yr ystyriwyd bod risgiau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn isel ar hyn o bryd ond y byddent yn cynyddu yn ystod y flwyddyn i ddod, felly roedd risgiau newydd wedi cael eu hychwanegu at y gofrestr ynglŷn â chadw personél allweddol a sensitifrwydd gwleidyddol.

8.2 Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai Cofrestr Risgiau Corfforaethol CDFfC adlewyrchu a rheoli'r risgiau uwch y byddai'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn eu hwynebu yn ystod y flwyddyn i ddod. **Cytunwyd** y byddai risgiau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn cael eu hadolygu i sefydlu pa risgiau y dylid eu cynnwys ar Gofrestr Risgiau Corfforaethol CDFfC.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid / Prif Weithredwr **Erbyn:** 31 Ionawr 2026

8.3 Holodd y Pwyllgor sut oedd cofrestrau risgiau amrywiol CDFfC yn rhyngweithio â'i gilydd a sut oedd risgiau'n cael eu huwchgyfeirio. **Cytunwyd** y byddai swyddogion yn mapio'r cofrestrau risgiau ac yn egluro'r polisi ar gyfer uwchgyfeirio risgiau.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Ionawr 2026

## 9. Adolygiad y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) o'r Gofrestr Risgiau Strategol a Chynnydd Prosiect y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP).

9.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad diweddaru ar Gofrestr Risgiau Strategol y BRhE a statws presennol y prosiect WEIP. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr adroddiad yn gadarnhaol iawn ac yn dangos bod y BRhE yn gwneud cynnydd da.

9.2 Holodd y Cadeirydd a oedd y BRhE wedi wynebu unrhyw faterion annisgwyl. Dywedodd Mark Pascoe mai'r unig broblem a oedd wedi codi oedd mater bach gyda chyflenwyr, ond y bu'r BRhE yn ymwybodol o hyn.

## 10. Adolygiad o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

10.1 Adroddwyd na fu'n bosibl ystyried yr eitem hon o ganlyniad i ymrwymiadau gwaith eraill, ac y byddai bellach yn cael ei hystyried yng nghyfarfod mis Ionawr 2026, yn lle hynny.

## 11. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

11.1 Nododd y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2025-26. Ystyriwyd bod llawer o eitemau ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth 2026. **Cytunwyd** y byddai'r Cynllun Gwaith yn cael ei adolygu i sicrhau nad oedd unrhyw eitemau diangen ar yr agenda.
**Gweithredu:** Cadeirydd y PLIA / Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 21 Ionawr 2026

## 12. Y Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio.

12.1 Nododd y Pwyllgor fersiwn ddiweddaraf y Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF ym mis Awst 2025.

12.2 Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai Atodiadau F ac I, sy'n ymdrin â chwestiynau y dylai pwyllgorau archwilio eu gofyn yn gysylltiedig â hunanasesu, yn ddefnyddiol ar gyfer ymarfer hunanasesu'r PLIA. Dywedodd Gary Baines y byddai MIAA yn cefnogi proses hunanasesu'r PLIA pe byddai angen. **Cytunwyd** y byddai cwestiynau hunanasesu'r PLIA yn cael eu hadolygu yn erbyn y cwestiynau a awgrymwyd yn y Llawlyfr ac y byddai fersiwn gryno'n cael ei chynnwys ym mhecyn sefydlu aelodau'r PLIA.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid / MIAA **Erbyn:** 3 Mawrth 2026

**13. Adroddiad Monitro'r Gyllideb.**

13.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad chwarterol ar y gyllideb a sefyllfa'r gyllideb a adroddwyd i Aelodau CDFfC yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2025.

13.2 Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai'r adroddiad gynnwys mwy o fanylion am sut roedd y gwariant yn erbyn y gyllideb yn effeithio ar risgiau strategol a chyflawni, ac y dylid rhoi ystyriaeth bellach i hyn.

**14. Adroddiad Cynnydd ar Argymhellion Archwilio.**

14.1 Nododd y Pwyllgor y sefyllfa bresennol o ran gweithredu argymhellion archwilio sy'n weddill.

**15. Rhoddion a Lletygarwch.**

15.1 Nododd y Pwyllgor y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch gyfredol a'r cofnodion.

**16. Diweddariad ar Adroddiadau Archwilio Cymru.**

16.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan Archwilio Cymru ynglŷn â'u cyhoeddiadau diweddar.

**17. Gwersi a Ddysgwyd o'r Archwiliad o Gyfrifon Blynyddol CDFfC.**

17.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan y Rheolwr Cyllid a'r sicrwydd bod yr hyn a achosodd oedi cyn llofnodi'r cyfrifon wedi derbyn sylw.

**18. Llythyr Archwilio Cymru ynglŷn ag Ymgynghoriad ar Ffioedd 2026-27.**

18.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Archwilio Cymru a oedd yn mynd i'r afael â materion a godwyd wrth ymateb i'w Hymgynghoriad diweddar ar Ffioedd.

## 19. Unrhyw Fater Arall.

19.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 21 Ionawr 2026 am 10:00 a.m.